# Sgiliau Geiriadur

**Tasg Un**

Dyma restr o eiriau sydd wedi eu camsillafu. Mae angen i chi ddefnyddio geiriadur i'w cywiro.

1. golygys ______
2. affrawes ______
3. disgybyl ______
4. anwyl ______
5. heuarn ______
6. anarferrol ______
7. hyfrud ______

**Tasg Dau**

Wedi i chi gywiro'r geiriau, ysgrifennwch i lawr ar ba dudalen y mae'r gair a beth yw diffiniad y gair yn ôl y geiriadur.

| Gair | Rhif y Dudalen | Diffiniad |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## Tasg Tri

Rhowch y rhestri o eiriau yma yn nhrefn yr wyddor.

| Rhestr Un | Rhestr Dau | Rhestr Tri |
|---|---|---|
| rygbi | ci | chwilen |
| hoci | cyfarth | chwerthin |
| tenis | crafu | chwysu |
| nofio | cofleidio | chwaer |
| dawnsio | cerdded | chwiban |

| Rhestr Un | Rhestr Dau | Rhestr Tri |
|---|---|---|
| 1. ______________ | 1. ______________ | 1. ______________ |
| 2. ______________ | 2. ______________ | 2. ______________ |
| 3. ______________ | 3. ______________ | 3. ______________ |
| 4. ______________ | 4. ______________ | 4. ______________ |
| 5. ______________ | 5. ______________ | 5. ______________ |

## Tasg Pedwar

Mae gan rai geiriau ystyr sy'n debyg i'w gilydd. Gellwch ddefnyddio geiriadur i ddarganfod sut y maent yn wahanol i'w gilydd.

Chwiliwch am y geiriau canlynol mewn geiriadur ac ysgrifennwch yr hyn sydd ychydig yn wahanol amdanynt.

**1. mynydd bryn copa ffridd**

**2. stryd llwybr lôn ffordd**

**3. braw ofn arswyd dychryn**

## Tasg Pedwar

1. **mynydd** **bryn** **copa** **ffridd**

___

___

___

___

2. **stryd** **llwybr** **lôn** **ffordd**

___

___

___

___

3. **braw** **ofn** **arswyd** **dychryn**

___

___

___

___

## Tasg Pump

Mae geiriadur yn dweud wrthym sut fath o air sydd gennym. Gall fod yn enw, yn ansoddair, yn ferf, ac yn y blaen.

Chwiliwch am y geiriau isod a nodwch pa fath o eiriau ydynt.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **lori** | ___ | **creadur** | ___ |
| **trwm** | ___ | **tal** | ___ |
| **araf** | ___ | **gwastad** | ___ |
| **heddiw** | ___ | **buan** | ___ |
| **arth** | ___ | **anodd** | ___ |



twinkl Quality Standard Approved

# Taflen Atebion Sgiliau Geiriadur

**Tasg Un**

Dyma restr o eiriau sydd wedi eu camsillafu. Mae angen i chi ddefnyddio geiriadur i'w cywiro.

1. golygys ______ golygus
2. affrawes ______ athrawes
3. disgybyl ______ disgybl
4. anwyl ______ annwyl
5. heuarn ______ haearn
6. anarferrol ______ anarferol
7. hyfrud ______ hyfryd

**Tasg Dau**

Bydd rhif y dudalen yn dibynnu ar pa eiriadur a ddefnyddir i ganfod y geiriau. Gall y diffiniadau amrywio rywfaint hefyd.

| Gair | Rhif y Dudalen | Diffiniad |
|---|---|---|
| 1. golygus | | Teg yr olwg, lluniaidd a hardd. |
| 2. athrawes | | Athro benywaidd, rhywun sy'n addysgu. |
| 3. disgybl | | Un sy'n dysgu gan berson arall. |
| 4. annwyl | | Rhywun a hoffir neu sy'n cael ei garu. |
| 5. haearn | | Defnydd caled a gloddir o'r ddaear ac sy'n cael ei doddi mewn ffwrnes i wneud amrywiaeth o offer defnyddiol. |
| 6. anarferol | | Rhywbeth sy'n anghyffredin. |
| 7. hyfryd | | Pleserus a dymunol. |

## Tasg Tri

Rhowch y rhestri o eiriau yma yn nhrefn yr wyddor.

**Rhestr Un**

1. dawnsio
2. hoci
3. nofio
4. rygbi
5. tenis

**Rhestr Dau**

1. cerdded
2. ci
3. cofleidio
4. crafu
5. cyfarth

**Rhestr Tri**

1. chwaer
2. chwerthin
3. chwiban
4. chwilen
5. chwysu

## Tasg Pedwar

**Diffiniadau:**

**1. mynydd bryn copa ffridd**

**mynydd** codiad tir uchel a serth

**bryn** codiad tir bach

**copa** brig neu ben y mynydd

**ffridd** porfa fynyddig

**2. stryd llwybr lôn ffordd**

**stryd** ffordd gyhoeddus mewn dinas, tref neu bentref

**llwybr** ffordd gul a ddefnyddir gan gerddwyr neu feicwyr gan amlaf

**lôn** ffordd fach gul a gwledig

**ffordd** llinell i deithio arni mewn cerbydau o dref i dref ac yn y blaen, fel arfer wedi ei gorchuddio â tharmac

**3. braw ofn arswyd crynu**

**braw** profiad sy'n rhoi ofn sydyn i rywun

**ofn** teimlad cas a achosir gan berygl neu ddrwg

**arswyd** ofn neu sioc eithafol a drwg

**crynu** y corff yn ysgwyd ar ôl cael braw neu pan yn teimlo'n oer neu'n sâl

## Tasg Pump

| Gair | Math o Air | Gair | Math o Air |
|---|---|---|---|
| lori | enw | creadur | enw |
| trwm | ansoddair | tal | ansoddair |
| araf | ansoddair neu adferf os yn cynnwys yn o'i flaen (yn araf) | gwastad | ansoddair |
| heddiw | adferf | buan | ansoddair neu adferf os yn cynnwys yn o'i flaen (yn fuan) |
| arth | enw | anodd | ansoddair |



ewch i twinkl.cymru